# smalltalk

Cylchgrawn aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru

Hydref 2021 | Rhifyn 143 | £7

## Cyrraedd eich llawn botensial: pwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Dysgwr y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru 2020
- Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy – cael plant a theuluoedd yn actif
- Siarad Gyda Fi: Llywodraeth Cymru ar ei Chynllun Darparu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
- Pwysigrwydd gofal plant i economi Cymru
- Cyfarfod â'r dysgwyr sydd wedi bod yn cymhwyso yn ystod y cyfnod clo

## Y Cyfnod Sylfaen: Pwnc Trafod

- Archwilio chwarae mentrus yn yr awyr agored a datblygiad sgema yn y Blynyddoedd Cynnar gyda Phrifysgol De Cymru

## Hyrwyddo symudiad, iaith a datblygiad gwybyddol yn y cartref gyda'r NSPCC, Booktrust Cymru a Blynyddoedd Cynnar Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# tu mewn


**4. Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Nid yw gorfod ymdrin â phroblemau diogelu byth yn hawdd, ond mae'n bwysig gwybod beth i'w wneud a phryd i'w wneud. Rydym yn amlygu'ch cyfrifoldebau cyfreithiol.

**6. Stori glawr: Cyrraedd eich llawn botensial**
Pam fod datblygiad proffesiynol parhaus yn bwysig

**7. Dysgwr y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru 2020: Y gyfrinach i lwyddiant yw angerdd**
Rydym yn dathlu cyraeddiadau Sandra Stait, ein Dysgwr y Flwyddyn 2020.

**8. Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy; plant iach a hapus am oes**
Sut mae'r Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy'n ffordd berffaith i gael teuluoedd a phlant yn iach ac yn actif.

**10. Siarad Gyda Fi: Cynllun Darparu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**
Llywodraeth Cymru'n egluro sut y bydd plant yng Nghymru'n cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

**13. City & Guilds a CBAC - Pwysigrwydd gofal plant i economi Cymru**
Amlygodd y pandemig pa mor hanfodol y mae'r sector gofal plant i fusnesau Cymru – mae'n rhaid cael pobl wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso i safon uchel.

**14. Gweithwyr allweddol gofal dydd – yr arwyr di-glod**
Mae Hyfforddiant Educ8 yn ein cyflwyno i rai o'u dysgwyr sydd wedi bod yn cymhwyso yn ystod y cyfnod clo.

**15. Allan, allan… Digwyddiad Gwarchodwyr Plant Casnewydd**
Ein tîm Casnewydd yn sôn wrthym am gael hwyl gyda'n haelodau gwarchodwyr plant.

**16. Edrych ar ôl eich llesiant ariannol**
Mae'r 18 mis diwethaf wedi dangos i ni nad oes gennym ni ddim syniad beth sydd rownd y gornel nesaf. Mae arbenigwyr pensiynau Demna Consulting Ltd yn trafod gyda ni bwysigrwydd cynllunio ar gyfer yr annisgwyl.

**19. Edrych Dweud Canu Chwarae**
Edrych Dweud Canu Chwarae yw ymgyrch adeiladu ymennydd babi NSPCC Cymru. Mae Emma Motherwell yn egluro sut y mae pobl broffesiynol yn ei defnyddio i helpu rhieni i gefnogi datblygiad eu babi.

**22. Booktrust Cymru: awgrymiadau gorau ar gyfer darllen gyda phlant ifanc**
Sut i wneud darllen gyda phlant yn hwyl.

**24. Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru: gweithio mewn partneriaeth â Booktrust Cymru**
Sut, trwy'r rhodd o lyfrau, rydyn ni wedi gallu hyrwyddo symud ac iaith mewn cartrefi ledled Cymru.

**26. Y Cyfnod Sylfaen: Pwnc Trafod Chwarae mentrus yn yr awyr agored a datblygu sgema yn y blynyddoedd cynnar (rhan un)**
Y gyntaf mewn cyfres ddwy ran o erthyglau yn trafod chwarae mentrus yn yr awyr agored a datblygu sgema yn y Blynyddoedd Cynnar.

**31. Arian i Flynyddoedd Cynnar**
Ydych chi eisiau tyfu'ch busnes? Mae gan Busnes Cymru a'r Banc Datblygu Cymru y gefnogaeth a'r arian a allai helpu.


## Y Tîm


**Golygydd:**
Charlotte Davies
smalltalk@earlyyears.wales

**Is-olygyddion:**
Maggie Kelly
Matt Anthony
Andrea Wright
Sarah Wiggin



**Registered Office:**
Unit 1, Coopers Yard,
Curran Road,
Cardiff, CF10 5NB

**T:** 029 2045 1242
**E:** info@earlyyears.wales

**Swyddfa Gofrestredig:**
Uned 1, Iard y Cowper,
Ffordd Curran,
Caerdydd, CF10 5NB

**Ff:** 029 2045 1242
**E:** info@earlyyears.wales


## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Dilynwch ni ar Trydar
**@EarlyWales**

Ein gweld ar Gweplyfr
**EarlyYearsWales**

Ymunwch â ni ar Linkedin
**Early Years Wales**

Dilynwch ni ar Instagram
**earlyyearswales**



FSC
www.fsc.org
MIX
Paper from responsible sources
FSC® C022174

**Ymwelwch â'n gwefan**
**blynyddoeddcynnar.cymru**


Early Years Wales 2018
Blynyddoed Cynnar Cymru 2018

Registered Charity Number: 1056381
Company limited by guarantee: 3164233
Rhif Elusen Gofrestredig: 1056381
Cwmni cyfngedig drwy warant: 3164233



# Stori glawr:

## Cyrraedd eich llawn botensial: pam fod datblygiad proffesiynol parhaus yn bwysig

***"Datblygiad Proffesiynol Parhaus yw cynllunio i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau proffesiynol, yn barhaus, gydol eich bywyd gwaith. Mae'n agwedd holistig at ddysgu sy'n cydnabod profiadau pob dydd fel cyfleoedd dysgu. Hanfod Datblygiad Proffesiynol Parhaus yw llwyddo i fod yn broffesiynol ym mhopeth rydych yn ei wneud; mae'n ymrwymiad personol i ddiweddaru'ch gwybodaeth a sgiliau'n barhaus."*** (Cyf: https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/CCPD-toolkit-for-social-care-ENGv01.pdf)

### Mae datblygiad proffesiynol yn bwysig ym mhob cyfnod o'n bywyd gwaith

Dros y 18 mis diwethaf, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi buddsoddi'n drwm yn ei becyn aelodaeth a dim ond un agwedd o hynny oedd darparu rhaglen amrywiol o dros 40 o gyrsiau ar lein i dros 450 o ymarferwyr, pob un yn rhad ac am ddim i holl staff a gwirfoddolwyr mewn lleoliadau.

Gyda chofrestru wedi agor erbyn yn ar gyfer Gwobrau Blynyddoedd Cymru 2021, rydyn ni'n dathlu ein henillydd **Dysgwr y Flwyddyn 2020**, ac rydyn ni'n cynnwys erthyglau sy'n amlygu rhai o'r pethau allweddol sydd gan unigolyn hwn a wnaeth gymaint o argraff ar y beirniaid: Mae Catherine Perry, Uwch Arbenigwr Hyrwyddo Iechyd, Ysgolion Iach yn **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn trafod pam mai dyma'r adeg berffaith i gyflwyno eich teuluoedd a phlant i hybu iechyd trwy'r Cynllun Cyn Ysgol Iach a Chynaliadwy; a Catherine Pape, Cydlynydd Cenedlaethol Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, yn ein cyflwyno i Gynllun Darparu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu **Llywodraeth Cymru** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

Rydym hefyd yn clywed oddi wrth **City and Guilds a CBAC** ynghylch sut mae pwysigrwydd y sector gofal plant i economi Cymru wedi cael ei gydnabod yn ystod y pandemig a sut maen nhw wedi bod yn gweithio gyda'u canolfannau, eu cyflogwyr a'u rhanddeiliaid i alluogi dysgwyr i symud o ddysgu yn y dosbarth i ddysgu ar lein. Mae **Hyfforddiant Educ8** yn ein cyflwyno i rai o'u dysgwyr ac yn trafod sut maen nhw'n cefnogi dysgu ar lein a'r cyrsiau maen nhw'n eu cynnig.

**Darllen ychwanegol:**

https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/CPD-CYM.pdf

# Cyfrinach llwyddiant yw angerdd

## Sandra Strait, Gofal Dydd Little Tigers, Sir Fynwy
## Dysgwr y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru 2020

**Roedd y wobr hon yn cael ei dyfarnu i gydnabod unigolyn oedd wedi dangos cynnydd a rhagoriaeth glir yn y sector Blynyddoedd Cynnar.**





Erbyn hyn yn rheolwr yr adran Dan 3 oed, cychwynnodd Sandra ar ei thaith yng Ngofal Dydd Little Tigers yn Rogiet, Sir Fynwy, 8 mlynedd yn ôl fel Cymhorthydd Chwarae.

Cafodd ei henwebu gan ei chydweithwyr yng Ngofal Dydd Little Tigers am y Wobr Dysgwr y Flwyddyn am lwyddo i gwblhau ei Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygu Lefel 5 o dan arweiniad a chefnogaeth ei hasesydd yn ACT Training, er gwaethaf cael triniaeth am iechyd gwael a brwydro gyda dyslecsia.

Meddai Pam Curtis, Perchennog Little Tigers, "Mae Sandra'n rhedeg tîm tynn o staff, sy'n gweithio i gefnogi ei gilydd yn ogystal â chyfarfod anghenion pob plentyn yn unigol. Mae hi'n ysgogi ac yn cadw cysylltiad â'i staff.

"Mae'n cyflawni pob dyletswydd y disgwylir i reolwr ei wneud, a llawer mwy, gan gynnwys paratoi gweithgareddau i'w gwneud gartref, cynllunio ychwanegol i gyfarfod ag anghenion penodol, cefnogi ei thîm o staff allan o oriau ac unrhyw hyfforddiant arall y bydd yn gallu manteisio arno.

"Yn ystod ei hamser yn Little Tigers mae Sandra wedi ennill cymwysterau mewn meysydd megis hyfforddiant Atal, Ymwybyddiaeth Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, Gwobr Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae City & Guilds, Hylendid Bwyd, Cymorth Cyntaf Paediatreg, hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â chwarae rhan actif yn y lleoliad gan lwyddo i gyrraedd **gwobr cyn ysgol Iach a Chynaliadwy** (gweler tudalen 8) ac Ansawdd i Bawb (Cymeradwyaeth Uchel 2019)

***"Mae Sandra wedi creu amgylchedd dawel, naturiol i'r plant ond sydd hefyd yn eu hysgogi ac yn eu cysylltu. Mae wedi, er enghraifft, cyflwyno mannau rhydd, lleoedd synhwyrol ac mae, ar hyn o bryd yn gweithio gyda rhieni i leihau'r defnydd o ddymis a photeli (gweler tudalen 10), oherwydd y cynnydd mewn anawsterau lleferydd ac iaith."***

Tystiolaeth riant ***"Mae gan fy merch hynaf barlys yr ymennydd ac oherwydd amynedd ac ymroddiad Sandra i ofalu am y plant, mae hi wedi ffynnu yn y feithrinfa ac roedd yn gallu ymuno'n rhwydd ym mywyd ysgol. Mae hi wedi symud ymlaen i ddod yn ferch ifanc hyderus ac annibynnol iawn."***

### Efallai y byddwch hefyd â diddordeb mewn:

Cyflwyno Cymraeg i Blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol *small***talk** (gwanwyn 2019), tudalen 11 – 13
Y Cyfnod Sylfaen: Pwnc Trafod – Adeiladau Cysylltiadau; Cyfoethogi Bywydau, *small***talk**, (haf 2019), tudalen 14 – 19
Rhaglen Attention Autism; Rhannu amseroedd da a chreu atgofion ffantastig, *small***talk**, (gaeaf 2019), tudalen 14 – 15
Stori Carter, *small***talk**, (gwanwyn 2021), tudalen 8 - 9

### Peidiwch ag anghofio:

Gall aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru lawrlwytho ôl rhifynnau o smalltalk am ddim: **earlyyears.wales/shop**